# Ardal Ni 2035
# Canlyniadau Ymarferiad Ymgysylltu Cyhoeddus
(Chwefror – Mehefin 2022)

## Dalgylch Pwllheli.



# 1 Cyflwyniad

1.1 Bwriad prosiect Ardal Ni 2035 ydi cynnal sgwrs a thrafod gyda chymunedau lleol er mwyn adnabod beth sy'n bwysig i drigolion a sut yr hoffent weld eu hardal yn datblygu dros y 10-15 mlynedd nesaf.

1.2 Ein bwriad yw cyd-weithio a chyd-ddatblygu datrysiadau gyda sefydliadau, grwpiau ac unigolion. Ar ddiwedd y prosiect bydd 13 cynllun adfywio penodol yn cael eu creu a fydd adlewyrchu blaenoriaethau a dyheadau cymunedau lleol.

1.3 Fel cam cyntaf i'r gwaith, cynhaliwyd sgyrsiau gyda Chynghorwyr, Cynghorau Cymuned a Thref a grwpiau adfywio lleol er mwyn sefydlu:

- **Beth sy'n dda** am yr ardal?
- **Beth sydd ddim mor dda** am yr ardal?
- **Pa newidiadau fysech chi'n dymuno eu gweld yn digwydd yn eich ardal** yn ystod y 15 mlynedd nesaf, fysa'n gwneud eich ardal yn well lle i fyw ynddi?

1.4 Fe wnaeth **14** o Gynghorau Cymuned/Tref, mudiadau, grwpiau ac Aelodau lleol yn Nalgylch Pwllheli gyflwyno eu syniadau ynglŷn â beth ddylai fod yn flaenoriaethau lleol ar gyfer yr ardal yn y cyfnod hyd at 2035. Defnyddiwyd yr ymatebion yma fel sail ar gyfer yr ail-gam o ymgysylltu ehangach gyda'r cyhoedd.

1.5 Ym mis Chwefror 2022 fe lansiwyd ymarferiad ymgysylltu cyhoeddus ar gyfer pob un o'r 13 ardal/dalgylch, gyda gwahoddiad i bobl leol gyfrannu i'r gwaith o siapio prosiect Ardal Ni 2035 drwy lenwi holiadur syml ar-lein neu ar bapur.

1.6 Er mwyn annog cymaint o bobl â phosib i gymryd rhan, trefnwyd ymgyrch ymgysylltu cynhwysfawr a oedd yn cynnwys:

- Datganiadau i'r wasg ac eitem ar y radio;
- Hysbysebion yn y papurau Bro;
- Taflenni gwybodaeth;
- Negeseuon drwy'r cyfryngau cymdeithasol;
- Negeseuon amlwg ar dudalen gartref gwefan y Cyngor;
- Mynychu digwyddiad Balchder Gogledd Cymru ym Mangor.

1.7 Yn ogystal, trefnwyd cyfres o ymweliadau a chyfarfodydd wyneb yn wyneb i glywed lleisiau grwpiau ac unigolion nad yw'r Cyngor wedi clywed (rhyw lawer) ganddynt yn hanesyddol. Roedd rhain yn cynnwys:


- GISDA Blaenau Ffestiniog – Sesiwn drafod gyda'r criw Bwrdd Pobl Ifanc a sesiwn drafod gydag aelodau o Glwb LHDT+ GISDA.
- GISDA Caernarfon - Sesiwn drafod gydag aelodau o Glwb LHDT+ GISDA.
- GISDA Pwllheli - Sesiwn drafod gydag aelodau o Glwb LHDT+ GISDA.
- Dementia Actif Gwynedd, Y Bermo – Sesiwn drafod ar ôl yr ymarfer cadw'n heini.
- Dementia Actif Gwynedd, Dolgellau - Sesiwn drafod ar ôl yr ymarfer cadw'n heini.
- Dementia Actif – Sesiwn drafod ar ôl chwarae Boccia yn Nhafarn yr Heliwr yn Nefyn.
- Dementia Actif, Caernarfon - Sesiwn drafod ar ôl yr ymarfer cadw'n heini.

# 2 Trosolwg Sirol

**3,776** o unigolion ar draws Gwynedd wedi manteisio ar y cyfle i ddweud eu dweud:


- **3,675** o'r rhain wedi cwblhau'r holiadur ar-lein.
- **10** wedi cwblhau'r holiadur papur a oedd ar gael yn y llyfrgelloedd, siopau Gwynedd neu drwy gyflwyno cais dros y ffôn.
- **6** wedi cwblhau'r fersiwn 'Hawdd ei Ddarllen' o'r holiadur.
- **85** o bobl wedi mynychu sesiynau wyneb yn wyneb ar gyfer **pobl ifanc**, **pobl ifanc LHDT+**, **pobl hŷn** a **phobl sy'n byw gyda dementia.**


## 2.1 **Nifer o ymatebwyr fesul ardal***






*Ar gyfer yr holiadur ar-lein a phapur.


## 2.2 Trosolwg o'r Ymatebwyr i'r Arolwg Cyhoeddus ar gyfer Gwynedd.










YDYCH CHI'N DEALL, SIARAD, DARLLEN A/NEU'N YSGRIFENNU'N GYMRAEG?
SIARAD CYMRAEG
1963
DEALL CYMRAEG AR LAFAR
1641
DARLLEN CYMRAEG
1577
YSGRIFENNU'N GYMRAEG
1413
DDIM YN DEALL CYMRAEG
706
GWELL GENNYF BEIDIO Â DWEUD
449
0
500
1000
1500
2000
2500



CENEDLIGRWYDD NEU HUNANIAETH GENEDLAETHOL?
CYMREIG
1880
SEISNIG
482
ALBANAIDD
21
GWYDDELIG O OGLEDD IWERDDON
2
PRYDEINIG
844
GWELL GENNYF BEIDIO Â DWEUD
212
ARALL:
97
0
500
1000
1500
2000


BETH YW EICH HIL?
GWYN
DU / CARIBÏAIDD AFFRICANAIDD
ASIAIDD
SIPSIWN / TEITHIWR GWYDDELIG
CYMYSG / SAWL GRŴP ETHNIG
GWELL GENNYF BEIDIO Â DWEUD
ARALL:
3204
12
10
4
25
260
19
0
500
1000
1500
2000
2500
3000
3500


BETH YW EICH CREFYDD?
CRISTION
MWSLEMAIDD
BWDHAIDD
HINDW
IDDEWIG
ANFFYDDIWR
GWELL GENNYF BEIDIO Â DWEUD
ARALL:
1789
6
22
4
8
820
803
236
0
500
1000
1500
2000


PA UN O'R RHAIN SY'N EICH DISGRIFIO CHI ORAU?
HETERORYWIOL / STRÊT
3055
DYN HOYW
47
DYNES HOYW / LESBIAN
29
DEURYWIOL (BISEXUAL)
53
GWELL GENNYF BEIDIO Â DWEUD
425
ARALL:
28
0
500
1000
1500
2000
2500
3000
3500



YDI EICH HUNANIAETH RHYWEDD WEDI NEWID O'R HYN A BENNWYD ADEG EICH GENI?
YDI
46
NA
3218
GWELL GENNYF BEIDIO Â DWEUD
300
0
500
1000
1500
2000
2500
3000
3500



A YDYCH CHI'N YSTYRIED EICH HUN YN BERSON ANABL?
YDW
317
NAC YDW
3068
GWELL GENNYF BEIDIO Â DWEUD
305
0
500
1000
1500
2000
2500
3000
3500


# 3 Canlyniadau Dalgylch Pwllheli


## 3.1 Trosolwg o'r Ymatebwyr i'r Arolwg Cyhoeddus ar gyfer Dalgylch Pwllheli


3.2 Derbyniwyd **257** o ymatebion i'r Holiadur Ardal Ni 2035 ar gyfer Dalgylch Pwllheli.










YDYCH CHI'N DEALL, SIARAD, DARLLEN A/NEU'N YSGRIFENNU'N GYMRAEG?
SIARAD CYMRAEG
161
DEALL CYMRAEG AR LAFAR
127
DARLLEN CYMRAEG
137
YSGRIFENNU'N GYMRAEG
125
DDIM YN DEALL CYMRAEG (DIM UN O'R...
50
GWELL GENNYF BEIDIO Â DWEUD
21
0 20 40 60 80 100 120 140 160 180



CENEDLIGRWYDD NEU HUNANIAETH GENEDLAETHOL?
CYMREIG
152
SEISNIG
45
ALBANAIDD
2
GWYDDELIG O OGLEDD IWERDDON
1
PRYDEINIG
44
GWELL GENNYF BEIDIO Â DWEUD
8
ARALL:
5
0 20 40 60 80 100 120 140 160


BETH YW EICH HIL?
GWYN
DU / CARIBÏAIDD AFFRICANAIDD
CYMYSG / SAWL GRŴP ETHNIG
GWELL GENNYF BEIDIO Â DWEUD
ARALL:
242
4
1
9
1
0
50
100
150
200
250
300


BETH YW EICH CREFYDD
CRISTION
BWDHAIDD
HINDW
ANFFYDDIWR
GWELL GENNYF BEIDIO Â DWEUD
ARALL:
147
1
1
48
52
8
0
20
40
60
80
100
120
140
160


PA UN O'R RHAIN SY'N EICH DISGRIFIO CHI ORAU?
HETERORYWIOL / STRÊT
DYN HOYW
DYNES HOYW / LESBIAN
DEURYWIOL (BISEXUAL)
GWELL GENNYF BEIDIO Â DWEUD
ARALL:
220
2
2
5
23
1
0
50
100
150
200
250


YDI EICH HUNANIAETH RHYWEDD WEDI NEWID O'R HYN A BENNWYD ADEG EICH GENI?
YDI
4
NA
234
GWELL GENNYF BEIDIO Â DWEUD
15
0
50
100
150
200
250


A YDYCH CHI'N YSTYRIED EICH HUN YN BERSON ANABL?
YDW
30
NAC YDW
210
GWELL GENNYF BEIDIO Â DWEUD
17
0
50
100
150
200
250

# 4 Nifer o ymatebwyr fesul tref neu bentref yn Nalgylch Pwllheli.

4.1 Mae'r tabl isod yn dangos y nifer o ymatebwyr fesul tref neu bentref yn Nalgylch Pwllheli.

| Tref/Pentref | Nifer o ymatebwyr |
|---|---|
| • Pwllheli | **89** |
| • Chwilog | **27** |
| • Llithfaen | **17** |
| • Y Ffor | **17** |
| • Abererch | **15** |
| • Trefor | **15** |
| • Llangybi | **11** |
| • Llanaelhaearn | **10** |
| • Arall: | **10** |
| • Llannor | **6** |
| • Pentreuchaf | **6** |
| • Penrhos | **5** |
| • Rhoslan | **5** |
| • Efailnewydd | **4** |
| • Boduan | **3** |
| • Llanystumdwy | **3** |
| • Pencaenewydd | **3** |
| • Pistyll | **3** |
| • Rhydyclafdy | **3** |
| • Penrallt | **2** |
| • Afon Wen | **1** |

# 5 Beth sy’n dda am Ddalgylch Pwllheli?

5.1 Mae’r tabl isod yn rhestru’r themâu a flaenoriaethwyd gan Gynghorau Cymuned / Tref, mudiadau, grwpiau ac Aelodau lleol Dalgylch Pwllheli. Fel rhan o’r ymarferiad ymgysylltu cyhoeddus, gwahoddwyd preswylwyr Dalgylch Pwllheli i ddewis hyd at 5 thema yr oeddynt yn cytuno gyda fwyaf.

| **Beth sy’n dda am Ddalgych Pwllheli?** | **Nifer o weithiau y blaenoriaethwyd y thema** |
|---|---|
| • Yr amgylchedd naturiol ac hwylustod at fynyddoedd, lan y môr a chefn gwlad | **189** |
| • Yr iaith Gymraeg a’r diwylliant | **133** |
| • Mae’n ardal ddiogel | **126** |
| • Llwybrau cerdded a beicio a Llwybr yr Arfordir o safon | **113** |
| • Ysbryd a chyfeillgarwch cymunedol yr ardal | **84** |
| • Gallu’r ardal i ddenu twristiaeth er budd economaidd | **79** |
| • Cyfleusterau lleol fel siopau, caffis a bwytai | **77** |
| • Cynnyrch a busnesau lleol yr ardal | **75** |
| • Treftadaeth a hanes yr ardal | **66** |
| • Trafnidiaeth gyhoeddus dda | **30** |
| • Cyfleusterau hamdden yr ardal | **17** |
| • Mudiadau, elusennau, mentrau a grwpiau gwirfoddol gweithgar yr ardal | **16** |
| • Gweithgareddau cymdeithasol a chyfleusterau cymunedol | **15** |
| • Cyfleoedd cyflogaeth | **6** |

5.2 Mewn ymateb i’r cwestiwn ‘**Nodwch unrhyw beth arall sy'n dda am Ddalgylch Pwllheli sydd heb ei restru uchod’**, derbyniwyd **45** o sylwadau ychwanegol gan breswylwyr Dalgylch Pwllheli. Roedd nifer o’r ymatebion ychwanegol yn cynnig sylwadau pellach am y themâu uchod e.e. Yr amgylchedd naturiol (n=9); ysbryd a chyfeillgarwch cymunedol yr ardal (n=9); yr iaith Gymraeg a’r diwylliant (n=5).

O’r sylwadau a oedd yn nodi rhywbeth arall sydd ddim mor dda am yr ardal, y themâu mwyaf poblogaidd oedd:

| Thema | Nifer o ymatebwyr ddaru nodi hyn |
|---|---|
| • Darpariaeth Iechyd da e.e. Treflan, Alltwen a Bryn Beryl | **3** |
| • Ffordd o fyw | **3** |

5.3 Yn ychwanegol i'r uchod, trefnwyd sesiynau wyneb yn wyneb gyda phobl ifanc LHDT+ ar y cyd gyda elusen GISDA. Mae'r sylwadau yma i'w gweld yn Atodiad A.

5.4 Bydd yr holl sylwadau ychwanegol a dderbyniwyd yn cael eu hystyried fel rhan o'r gwaith o ddatblygu'r cynlluniau ardal.

# 6 Beth sydd ddim mor dda am Ddalgylch Pwllheli?

6.1 Mae'r tabl isod yn rhestru'r themâu a flaenoriaethwyd gan Gynghorau Cymuned / Tref, mudiadau, grwpiau ac Aelodau lleol Dalgylch Pwllheli. Fel rhan o'r ymarferiad ymgysylltu cyhoeddus, gwahoddwyd preswylwyr Dalgylch Pwllheli i ddewis hyd at 5 thema yr oeddynt yn cytuno gyda fwyaf.

| **Beth sydd <u>ddim mor dda</u> am Ddalgylch Pwllheli?** | **Nifer o weithiau y blaenoriaethwyd y thema** |
|---|---|
| • Dim cyfleoedd i gadw pobl ifanc yn yr ardal | **122** |
| • Diffyg tai addas a fforddiadwy i bobl leol i'w prynu neu eu rhentu | **109** |
| • Nifer uchel o ail dai a thai haf yn yr ardal | **86** |
| • Diffyg swyddi cyflog uchel a llawn amser | **79** |
| • Economi fregus - diffyg adnoddau lleol ac mae angen adfywio tref Pwllheli | **70** |
| • Mae sbwriel, blerwch ac edrychiad cyffredinol yr ardal yn broblem | **58** |
| • Pryderon am ymddygiad gwrthgymdeithasol a chanfyddiad nad yw'r heddlu'n ddigon gweledol yn yr ardal | **55** |
| • Mae tlodi a chostau byw uchel yn broblem yn yr ardal | **47** |
| • Pryder yn lleol am ddarpariaeth iechyd a lles a gofal yn yr ardal | **46** |
| • Does dim datblygiad gwesty gan gwmnïau cenedlaethol ym Mhwllheli | **46** |
| • Mae pryder am ffyrdd a pharcio mewn nifer o leoliadau | **44** |
| • Diffyg darpariaeth a gweithgareddau i bobl ifanc | **44** |
| • Polisïau tai a'r maes cynllunio gan gynnwys y Cynllun Datblygu Lleol | **44** |
| • Diffyg cynnal a chadw llwybrau cerdded i'w cadw'n daclus a diogel | **44** |
| • Mae rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus yr ardal yn annigonol | **43** |
| • Mae llifogydd yn broblem mewn rhannau o'r ardal | **43** |
| • Mae band eang a chysylltiad i'r we yn wael yn yr ardal | **35** |
| • Mae angen gwneud mwy i godi proffil cynnyrch lleol a threftadaeth yr ardal | **34** |
| • Dim digon o bwyntiau gwefru ceir trydan | **33** |
| • Mae cyflwr toiledau cyhoeddus yr ardal yn wael | **27** |

| | |
|---|---|
| • Yr iaith Gymraeg a'r diwylliant yn colli tir a diffyg cyfleoedd i ddysgwyr yr iaith | **23** |
| • Diffyg twristiaeth cynaliadwy yn yr ardal | **14** |
| • Does dim canolfan neu gyfleuster cymunedol ym mhob pentref yn yr ardal | **12** |
| • Dim digon o bobl yn barod i fod ar bwyllgorau grwpiau a mudiadau cymunedol i ddatblygu cynlluniau cymunedol | **8** |
| • Cymryd amser hir i'r broses o alluogi cymunedau i gymryd rheolaeth o'u asedau lleol er mwyn cyfarch anghenion yr ardal | **7** |
| • Darpariaeth addysg | **7** |

6.2 Mewn ymateb i'r cwestiwn **'Nodwch unrhyw beth arall sydd <u>ddim mor dda</u> am Ddalgylch Pwllheli sydd heb ei restru uchod',** derbyniwyd **87** o sylwadau ychwanegol gan breswylwyr Dalgylch Pwllheli. Roedd nifer o'r ymatebion ychwanegol yn cynnig sylwadau pellach am y themâu uchod e.e. Diffyg tai fforddiadwy a nifer uchel o ail dai a thai haf yn yr ardal (n=10); diffyg swyddi cyflog uchel a llawn amser (n=6); pryderon ynghylch sbwriel, baw ci ac ati (n=5); diffyg cyfleon a darpariaeth ar gyfer pobl ifanc (n=5).

O'r sylwadau a oedd yn nodi rhywbeth arall sydd ddim mor dda am yr ardal, y themâu mwyaf poblogaidd oedd:

| **Thema** | **Nifer o ymatebwyr ddaru nodi hyn** |
|---|---|
| • Diffyg llwybrau cerdded a beicio addas/diogel i gysylltu gwahanol lefydd. | **10** |
| • Materion ynghylch Parcio, ffyrdd a thraffig. | **7** |
| • Diffyg digwyddiadau a chymdeithasau ar gyfer cwrdd â phobl ac i gefnogi'r gymuned. | **5** |
| • Canol tref Pwllheli angen buddsoddiad. | **5** |

6.3 Yn ychwanegol i'r uchod, trefnwyd sesiynau wyneb yn wyneb gyda phobl ifanc a phobl ifanc LHDT+ ar y cyd gyda elusen GISDA. Mae'r sylwadau yma i'w gweld yn Atodiad A.

6.4 Bydd yr holl sylwadau ychwanegol a dderbyniwyd yn cael eu hystyried fel rhan o'r gwaith o ddatblygu'r cynlluniau ardal.

# 7 Pa newidiadau fyddech chi'n dymuno eu gweld yn digwydd yn Nalgylch Pwllheli dros y 15 mlynedd nesaf fyddai'n gwneud yr ardal yn well lle i fyw ynddi?

7.1 Mae'r tabl isod yn rhestru'r themâu a flaenoriaethwyd gan Gynghorau Cymuned / Tref, mudiadau, grwpiau ac Aelodau lleol Dalgylch Pwllheli. Fel rhan o'r ymarferiad ymgysylltu cyhoeddus, gwahoddwyd preswylwyr Dalgylch Pwllheli i ddewis hyd at 5 thema yr oeddynt yn cytuno gyda fwyaf.

| Pa newidiadau fyddech chi'n dymuno eu gweld yn digwydd yn Nalgylch Pwllheli dros y 15 mlynedd nesaf fyddai'n gwneud yr ardal yn well lle i fyw ynddi? | Nifer o weithiau y blaenoriaethwyd y thema |
|---|---|
| • Cynlluniau i sicrhau tai sy'n addas i anghenion bobl leol eu prynu a'u rhentu | **119** |
| • Cynlluniau i ddod ag adeiladau gwag yn nol i fewn i ddefnydd | **113** |
| • Cynlluniau i gefnogi busnesau lleol i sefydlu a ffynnu ac i greu gwaith a swyddi gwerth uchel yn lleol | **96** |
| • Deddfwriaeth er mwyn cael gwell reolaeth ar dai haf ac ail gartrefi | **93** |
| • Datblygiad gwesty (cwmni cenedlaethol) ym Mhwllheli | **66** |
| • Ardal yn fwy gwyrdd - ynni adnewyddol, lleihau'r defnydd o blastig, pwyntiau gwefru ceir, cynlluniau plannu coed ac ati | **64** |
| • Cynlluniau i gryfhau'r adnoddau iechyd a gofal yn lleol | **63** |
| • Cynlluniau i gynnal a datblygu llwybrau cerdded a llwybrau beicio'r ardal | **60** |
| • Cynllun Twristiaeth Gynaliadwy effeithiol i gael gwell rheolaeth ar dwristiaeth a gwneud y mwyaf o'r potensial economaidd i bobl leol | **54** |
| • Presenoldeb mwy amlwg gan yr heddlu yn yr ardal | **52** |
| • Cynlluniau i gadw cymunedau'r ardal yn lan a thaclus | **52** |
| • Uwchraddio is-adeiledd band eang yr ardal | **47** |
| • Cynlluniau i ddarparu rhagor o gyfleusterau ar gyfer pobl ifanc ac i'w hannog i gymryd rhan fwy gweithredol yn eu cymuned | **46** |
| • Cynlluniau i wneud y mwyaf o botensial yr adnoddau hwylio a harbwr Pwllheli | **46** |
| • Cynlluniau i hyrwyddo'r iaith Gymraeg a'r diwylliant ac i gefnogi pobl sy'n dysgu'r iaith | **44** |

| | |
|---|---|
| • Cynlluniau i atal llifogydd | **44** |
| • Cynllun i ddatblygu cynllun economaidd i'r ardal | **44** |
| • Cynlluniau i ddatblygu rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus hygyrch, integredig ac addas i anghenion lleol | **37** |
| • Cynlluniau i wneud y mwyaf o atyniadau hanesyddol a diwylliannol yr ardal | **21** |
| • Cynlluniau i ddatblygu sgiliau a hyder ymysg aelodau cynghorau cymuned, grwpiau a mentrau cymdeithasol a hybu gwell cydweithio rhwng y grwpiau yma | **19** |

7.2 Mewn ymateb i'r cwestiwn **'Nodwch unrhyw beth yr ydych yn meddwl sydd wedi'i fethu uchod',** derbyniwyd **47** o sylwadau ychwanegol gan breswylwyr Dalgylch Pwllheli. Roedd nifer o'r ymatebion ychwanegol yn cynnig sylwadau pellach am y themâu uchod e.e. Cynlluniau i ddarparu rhagor o gyfleusterau ar gyfer pobl ifanc (n=3).

O'r sylwadau a oedd yn nodi rhywbeth arall am yr ardal, y themâu mwyaf poblogaidd oedd:

| **Thema** | **Nifer o ymatebwyr ddaru nodi hyn** |
|---|---|
| • Cynlluniau i fagu balchder ac i fuddsoddi yn nhref Pwllheli e.e. canol y dref a'r ardal ger y môr. | **5** |
| • Cynlluniau i ddatblygu llwybrau addas a diogel. | **3** |

7.3 Yn ychwanegol i'r uchod, trefnwyd sesiynau wyneb yn wyneb gyda phobl ifanc a phobl ifanc LHDT+ ar y cyd gyda elusen GISDA. Mae'r sylwadau yma i'w gweld yn Atodiad A.

7.4 Bydd yr holl sylwadau ychwanegol a dderbyniwyd yn cael eu hystyried fel rhan o'r gwaith o ddatblygu'r cynlluniau ardal.

# 8 Camau Nesaf

8.1 Yn ystod yr hydref, bydd yr holl adborth yr ydym wedi'i dderbyn gan breswylwyr a sefydliadau Dalgylch Pwllheli yn cael ei defnyddio mewn gweithdai gyda sefydliadau lleol fel rhan o waith i ddatblygu Cynllun Gweithredu Lleol.

8.2 Bwriad y Cynllun Gweithredu yw ymgorfori prosiectau a gweithgaredd ystod eang o sefydliadau sydd yn cyfrannu at adfywio a gwella ardal Dalgylch Pwllheli.

8.3 Fel rhan o'r Fframwaith Adfywio, bydd trefniadau ar gyfer monitro a chydlynu'r rhaglen waith yn cael eu sefydlu, gan ystyried strwythurau a trefniadau cydweithio presennol.

8.4 Mae'r amserlen ar gyfer camau nesaf o'r gwaith fel a ganlyn:

- Gweithdai gyda sefydliadau Lleol : Hydref / Tachwedd 2022
- Cynlluniau Gweithredu Drafft yn cael eu paratoi : Mawrth 2023
- Derbyn sylwadau neu ychwanegiadau i'r ddogfen ddrafft : Ebrill 2023
- Cynllun Gweithredu diwygiedig : Ebrill / Mai 2023
- Trefniadau Cyd-lynu a monitro yn weithredol : Mai 2023

8.5 Bydd gwybodaeth pellach am y cynlluniau hyn yn cael eu cyhoeddi ar safle we Cyngor Gwynedd (www.gwynedd.llyw.cymru).

8.6 Hoffem ddiolch yn fawr i bawb sydd wedi cymryd yr amser i roi eu barn ac i gyfrannu i'r gwaith o wella a chryfhau ein cymunedau.

# Atodiad A

**Clwb LHDT+ GISDA - Pwllheli (14/7/22).**

## Beth sy'n dda am Ddalgylch Pwllheli?

- Siopau fel Costa, Home bargains, Siop Grisial, siop lyfrau, elusen.
- Y Llyfrgell.
- Joshua tree.
- Yr amgylchedd naturiol e.e. Y goedwig, y traeth, yr afon.
- Teulu a ffrindiau.
- Y sinema.
- Y trafnidiaeth cyhoeddus.
- Y Iaith Gymraeg yn cael ei glywed o amgylch y dref.
- Y Marina.
- Clwb GISDA.
- Band eang da.
- Mae'r ysgol yn agos .

## Beth sydd ddim yn dda am Ddalgylch Pwllheli?

- Parc sglefrio wedi mynd – dyna lle oedd pobl yn arfer mynd i gwrdd.
- Rhai bobl leol gydag agweddau negyddol tuag at y gymuned LHDT+
- Ardal blêr – Sbwriel ar y llawr ac hefyd achosion o fandaliaeth.
- Diffyg gweithgareddau ar gyfer pobl ifanc.
- Ymddygiad gwrth-gymdeithasol mewn rhai llefydd penodol e.e. Gimblet Rock a'r safle bws.
- Prisiau byw yn cynyddu.
- Biniau yn orlawn ac ddim yn cael eu casglu digon aml.
- Dim siop (Llanaelhaearn).
- Dim teimlad o gymuned (Llanaelhaearn).
- Dim biniau (Llanaelhaearn).

**Pa newidiadau fyddech chi'n dymuno eu gweld yn digwydd yn Pwllheli dros y 15 mlynedd nesaf fyddai'n gwneud yr ardal yn well lle i fyw ynddi?**

- Mwy o glybiau i bobl ifanc.
- Lle i fynd pan mae hi'n bwrw glaw – mwy o weithgareddau ar gael o dan do, ac lle i bobl ifanc fynd i eistedd am ddim dan do.
- Mwy o Siopau.
- Mwy o finiau.
- Cael digwyddiad 'Balchder Pwllheli Pride.'
- Tafarndai/clwb LHDT+.
- Agor Siop (Llanaelhaearn).

CYNGOR GWYNEDD

UK Government Wales
Llywodraeth y DU Cymru

www.gwynedd.llyw.cymru | 01766 771000